
BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS CONWY A SIR DDINBYCH

Dydd Llun, 27 Mawrth 2017 am 2.00 pm
Gorsaf Dân Gymunedol, y Rhyl

YN BRESENNOL:	Bethan Jones (Cadeirydd)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
	Iwan Davies	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
	Rebecca Mason	Iechyd Cyhoeddus Cymru
	Mohammed Mehmet	Cyngor Sir Ddinbych
	Ditectif Uwch-arolygydd	Heddlu Gogledd Cymru
	Mark Pierce	
	Sioned Rees	Llywodraeth Cymru
	Cynghorydd Dilwyn Roberts	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
	Simon Smith	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
	Sian Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru
	Judith Magaw	Cwmni Ail-sefydlu Cymunedol Cymru
Swyddogion:	Hannah Edwards	Swyddog Datblygu Bwrdd Gwasanaethau Lleol
	Nicola Kneale	Swyddog Cynllunio a Pherfformiad Strategol
	Fran Lewis	Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol
	Shan Morris	Rheolwr Cynllunio Corfforaethol – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
	Megan Vickery	Swyddog Ymgysylltu – Canolog
	Jane Angharad Jones	Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
	Mark Bowler	Prif Swyddog Ymchwil a Gwybodaeth – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
	Iolo McGregor	Swyddog Cynllunio Strategol – Cyngor Sir Ddinbych
Absennol:	Andy Jones	Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
	Helen Wilkinson	Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych

44. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Stephen Hughes (Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru), Evan Moore (Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol - Bwrdd Iechyd

Prifysgol Betsi Cadwaladr), Wendy Jones (Cefnogaeth Gymunedol a Gwirfoddol Conwy) a'r Cynghorydd Hugh Evans (Cyngor Sir Ddinbych).

Croesawyd Rebecca Mason (Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd) i'w chyfarfod cyntaf o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.

45. **COFNODION**

Ymhellach i Gofnod 35 (Refferendwm Yr Undeb Ewropeaidd): Roedd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn ystyried bod angen cael gwell dealltwriaeth o fylchau ariannu a blaenoriaethau o ran prosiectau a ariennir gan Arian Ewropeaidd. **CYTUNODD** Sioned Rees (Llywodraeth Cymru) i ddilyn y mater gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO).

Ymhellach i Gofnod 38 (Cytuno ar amserlen leol ar gyfer yr Asesiad Lles a Chynllun Lles): Gofynnwyd am eglurder o ran yr amserlen ar gyfer cyhoeddi'r Asesiad Lles a Chynllun Lles, yn unol â gofynion allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Cyfeiriodd Simon Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr - Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru) at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (adran 54) lle roedd yn nodi *'rhaid i'r Bwrdd gyhoeddi Cynllun Lles Lleol dim hwyrach na 12 mis ar ôl pob etholiad cyffredin dilynol'*. **CYTUNWYD** i ofyn am eglurder ac amrywio'r amserlen yn unol â hynny, os oes angen.

PENDERFYNWYD-

Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr, 2016, yn amodol ar y camau gweithredu uchod.

46. **MATERION YN CODI**

Dim.

47. **CAIS AELODAETH GAN Y CYNGOR IECHYD CYMUNED**

Cafwyd cais i ymuno â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych gan y Cyngor Iechyd Cymuned.

Gwnaeth yr Aelodau groesawu'r cais ond penderfynwyd gohirio ystyried y cais, nes bod y blaenoriaethau sefydliadol wedi eu gosod.

Cafodd datblygu sail resymegol/profforma i ystyried ceisiadau yn y dyfodol ei gefnogi, mewn egwyddor, yn amodol ar gynnwys cwestiynau penodol o ran y rheswm dros y cais a beth allai'r sefydliad ei gynnig i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

PENDERFYNWYD:

Bod cais y Cyngor Iechyd Cymuned i ymuno â Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn cael ei ohirio, nes bod y blaenoriaethau sefydliadol wedi eu gosod.

48. **PAPUR GWYN LLYWODRAETH CYMRU: DIWYGIO LLYWODRAETH LEOL - YMATEB I GWESTIYNAU SY'N YMWNEUD Â BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS**

Cyflwynodd Sioned Rees (Llywodraeth Cymru) Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru (LIC): Diwygio Llywodraeth Leol – Ymateb i Gwestiynau sy'n ymwneud â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (Papur Ymgynghori).

Darparwyd y cefndir i'r Papur Gwyn a dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr ymgynghoriad yn dod i ben ar 11 Ebrill, 2017. Nodwyd bod amserlen y ddeddfwriaeth yn dynn.

Yn dilyn 11 Ebrill 2017, byddai'r ymatebion yn cael eu hadolygu/ystyried a byddai bil drafft yn cael ei lunio, yn barod i'w ddsbarthu ym Mlwyddyn 2 amserlen LIC. Roedd amserlen blwyddyn 3 yn un dros dro ar hyn o bryd, o ganlyniad i Brexit. Gan ymateb, dywedodd Simon Smith (Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru) ei fod dan yr argraff y byddai dogfen fwy manwl yn cael ei llunio tua diwedd y flwyddyn, cyn cadarnhad. **CYTUNODD** Sioned Rees (Llywodraeth Cymru) i ddilyn y mater.

Roedd y Papur Gwyn yn cyfeirio at y pedwar dewis Strwythur Rhanbarthol canlynol:

1. Mandadu olion troed rhagnodedig ar gyfer gweithio rhanbarthol.
2. Mandadu fframwaith.
3. Fframwaith ac ôl-troed (dull a ffefrir gan LIC).
4. Yn bwyllog ranbarthol (ymgysylltu â llywodraeth leol ar sail fesul gwasanaeth).

Yn ogystal â hyn, ystyriwyd y canlynol:

- Gwasanaethau Rhanbarthol.
- Llywodraethu rhanbarthol.
- Cyllid Rhanbarthol a Gweithlu.
- Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus.
- Uno Gwirfoddol.
- Fframwaith ar gyfer Arweinyddiaeth Leol: Disgwyliadau a Rennir.
- Cynghorau Cymuned.
- Etholiadau a Phleidleisio.

Gan ymateb i'r cwestiynau ymgynghoriad o ran Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, gwnaeth yr Aelodau yr awgrymiadau/sylwadau canlynol:

Uno a daduno Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus -

- Dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus allu dad-un yn ogystal ag uno.

Ni all Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus groesi ffin BILL -

- Roedd Aelodau yn teimlo y dylid bod â hyblygrwydd i weithio ar draws ffiniau yn enwedig os ydynt yn rhannu'r un blaenoriaethau.

Ymagwedd ranbarthol at Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus -

- Ystyriwyd bod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus lleol o werth mawr, fodd bynnag, roedd bod â chpasiti a gallu cyfrannu at 4 Bwrdd, ar draws y rhanbarth, yn her i rai partneriaid yn aml.
- Tynnwyd sylw at yr angen am gydlyniaeth rhwng darpariaeth ranbarthol a lleol.
- Ystyriwyd cynhyrchu amserlen ranbarthol, er mwyn alinio'r 4 Bwrdd yn well, at ddibenion cynllunio, yn ddewis.
- Sicrhau hyblygrwydd i ganiatáu i faterion ddatblygu dros amser oedd yr ymagwedd orau yn ôl y pwyllgor. Hefyd, cadw opsiynau ar agor, wrth roi ystyriaeth i'r sylwadau o ran yr heriau o fynychu 4 Bwrdd.

PENDERFYNWYD:

(a) Datblygu ymateb Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar sail y sylwadau uchod, i gyflwyno i Bapur Gwyn Llywodraeth Cymru: Diwygio Llywodraeth Leol.

(b) Bod yr ymateb drafft, i gynnwys y diwygiadau uchod, yn cael ei ddosbarthu i Aelodau'r Bwrdd er gwybodaeth.

49. **TIRWEDD PARTNERIAETH YNG NGHONWY A SIR DDINBYCH A CHYLLID PARTNERIAETH**

Cyflwynodd Iwan Davies (Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) ddiagram i ddangos tirwedd y bartneriaeth, yn isranbarthol a rhanbarthol, yng Nghonwy a Sir Ddinbych. Hefyd, roedd tabl yn cefnogi'r diagram ac yn cynnwys nodiadau cefndir byr, blaenoriaethau/ardaloedd ffocws a data cyllid grant ar bob un o'r cyrff/partneriaethau.

Croesawodd Aelodau'r wybodaeth, a chydabod cymhlethdod tirwedd y bartneriaeth ac aethant ymlaen i drafod y canlynol:

- Cymhlethdod mapio partneriaethau.
- Rhesymoli.
- Dros amser a ddylai'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fod yng nghanol y grwpiau? Byddai'r ddadl ar sut mae Byrddau yn rhyngweithio gyda phartneriaid yn dod yn gliriach pan fyddai Blaenoriaethau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'u gosod. □ Beth oedd yn ffurfio trefniant rhanbarthol?
- Gwydnwch lleol – dylai hwn fod mewn glas nid melyn ar y diagram.
- Beth oedd y berthynas rhwng y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a Bwrdd Rhan 9 – ystyriwyd bod Bwrdd Rhan 9, ar hyn o bryd, yn anghybwys.
- Anogwyd Aelodau i edrych ar gofnodion o'r Byrddau er mwyn cadw'n gyfredol o'r drafodaeth ac ati.

- Mapio'r berthynas rhwng pob bwrdd – beth oedd y cysylltiadau?
- Cydnabuwyd fod rhai partneriaethau/byrddau wedi'u gadael allan o'r diagram, e.e. Grŵp Gweithredol CSC ac Iechyd Meddwl. O ganlyniad, gofynnwyd i Aelodau adrodd yn ôl am unrhyw arsylwadau/diwygiadau i Swyddog Datblygu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Hannah Edwards.
- Pryder o ran dyblygiad.
- Ystyriwyd arfarniad o feysydd cyfrifoldebau allweddol ac ystyriwyd amcanion.
- Canolbwynt ar yr Aseiad Lles Lleol.

PENDERFYNWYD:

(a) Nodi'r Dirwedd Partneriaeth yng Nghonwy a Sir Ddinbych a gwybodaeth am Gyllid Partneriaeth.

(b) Bod Aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cynorthwyo i lenwi'r diagram Tirwedd Partneriaeth drwy adrodd yn ôl am unrhyw arsylwadau/diwygiadau i Swyddog Datblygu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Hannah Edwards.

50. **TREFNIADAU CYLLIDO GWASANAETHAU CYHOEDDUS 2017/2018**

Rhoddodd Prif Swyddog Ymchwil a Gwybodaeth Conwy, Mark Bowler, ddiweddiariad i Aelodau ar gymorth ariannol Llywodraeth Cymru (LIC) ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystod 2017/18 a rhoddodd wybod i'r Bwrdd am y cynigion gweithgareddau grant a awgrymwyd gan Grŵp Swyddogion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru.

Ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17, roedd LIC wedi dyrannu swm o £45k i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru i gefnogi creu Aseidiadau Lles Lleol. Rhannwyd y cyllid ar draws y rhanbarth a gwnaeth Grŵp Swyddogion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru reoli'r arian, gyda Chonwy yn dal y gyllideb.

Defnyddiwyd grant 2016/17 i -

- Gomisynu gweithgarwch ymgysylltu arbenigol gyda'r rhai sy'n anodd i'w cyrraedd.
- Comisiynu cefnogaeth ddadansoddol arbenigol i ddau Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth lunio eu Hasesiad Lles.
- Cynnal gweithdy rhanbarthol i ddarparu cyfle i fudd-ddeiliaid sydd â pherthynas gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws Gogledd Cymru i adrodd yn ôl ar yr Aseidiadau Lles Lleol.
- Creu amserlen ranbarthol ar gyfer creu'r aseiad a'r cynllun lles, er mwyn alinio'r 4 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn well ar gyfer dibenion cynllunio.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cymorth ariannol yn ddiweddar ar gyfer 2017/18 i gefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i baratoi

cynlluniau lles lleol a darparu cymorth parhaus wrth gyfuno gwaith ar yr Aseiad Lles Lleol. Byddai hyd at uchafswm o £83,117 o gymorth ar gael, fodd bynnag, roedd yr arian yn cael ei gynnig eto ar ôl-troed Gogledd Cymru (gan adlewyrchu ardaloedd y Bwrdd Iechyd Lleol). Byddai'r arian yn cael ei dalu o ran gweithgareddau a oedd yn dangos sut byddai'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cael eu galluogi i adeiladu eu gallu strategol a gallu i gefnogi paratoi cynlluniau lles yn unig, yn ogystal â chryfhau'r aseidiadau. Ni ellid defnyddio'r grant ar gyfer darparu prosiectau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus na chefnogaeth partneriaeth cyffredinol. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau am grant oedd 31 Mawrth, 2017.

Roedd swyddogion Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws Gogledd Cymru wedi cyfarfod ar 09.03.17 i drafod gweithgareddau posibl ar gyfer y grant, roedd cynigion yn cynnwys:-

- Cynnal gweithgarwch ymgysylltu a defnyddio technoleg i helpu i ddatblygu datrysiadau ymgysylltu hygyrch, gyda'r gymuned a budd-ddeiliaid proffesiynol yn ystod y broses o ddadansoddi ymatebion a chreu'r cynlluniau lles.
- Comisiynu gallu dadansoddi (pan fo angen) i lenwi bylchau data yn yr aseidiadau a chynnal unrhyw ymchwil fel bo angen.
- Cynllunio Senarios ar gyfer y dyfodol i alluogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i ddechrau meddwl am sut gallai'r dyfodol fod a'r effaith bosibl gallai ei chael.
- Gwella hygyrchedd yr aseidiadau a chynlluniau lles (fel llunio fersiynau hawdd eu deall, cyfieithu i ieithoedd eraill e.e. Cymraeg, Iaith Arwyddion Prydain ac ati), gan alluogi'r dogfennau i fod yn hygyrch a bod modd edrych arnynt ar-lein.
- Comisiynu hyfforddiant i ddatblygu gallu i nodi a gwerthuso ymyriadau effeithiol i gefnogi'r Cynllun Lles.

Oherwydd amserlenni cyfyngedig ar gyfer cyflwyno'r cais, nid oedd y cynigion ar gyfer y grant wedi bod i unrhyw Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus arall, fodd bynnag, roeddent wedi eu dosbarthu i bob un o Gadeiryddion Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Gogledd Cymru i gael eu mewnbwn a chefnogaeth.

Roedd y Bwrdd yn croesawu cymorth ariannol LIC ac yn cefnogi creu gallu yn y Tîm Cydweithredu Rhanbarthol, mewn egwyddor. Roedd y Bwrdd yn credu y byddai dull o'r fath yn helpu i osgoi dyblygiad a nodi materion rhanbarthol a allai fod mewn Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

Tynnwyd sylw at yr angen i roi ystyriaeth i'r adborth gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Sophie Howe, a sicrhau bod holl ofynion grantiau yn cael eu bodloni.

PENDERFYNWYD-

- (a) Bod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn nodi'r gweithgarwch grant ar gyfer cyfnod 2016/17.**

(b) Bod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych yn cymeradwyo'r cynigion ar gyfer grant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rhanbarthol 2017/18.

51. 1000 DIWRNOD CYNTAF BYWYD - ADRODDIAD O'R DIGWYDDIAD A'R CAMAU NESAF

Rhoddodd Rebecca Mason (Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd) gefndir i'r fenter 1000 Diwrnod Cyntaf Bywyd a'r digwyddiad mapio a gynhaliwyd ar 6 Chwefror, 2017, a rhoddodd Bethan Jones, (Cyfarwyddwr Ardal - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr), a gadeiriodd y digwyddiad, a oedd yn cynnwys saith bwrdd gweithdy, drosolwg o'r cyfarfod i Aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys themâu, blaenoriaethau a chamau nesaf.

Amlygwyd y canlynol:

- Roedd llawer o weithgarwch a nifer o wasanaethau a oedd yn darparu cefnogaeth i deuluoedd a phlant yn ystod 1000 Diwrnod Cyntaf Bywyd, ac ystyriwyd mai iechyd meddwl a lles oedd y blaenoriaethau allweddol ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.
- Un o'r blaenoriaethau oedd cynorthwyo amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol i ddod at ei gilydd, h.y. gwasanaethau rheng flaen, ar sail anffurfiol, i rannu gwybodaeth gychwynnol. Dywedodd y Cadeirydd fod dymuniad clir ymhlith y rhai a oedd yn bresennol yn y gweithdy i wella systemau o ran cofnodi, casglu a rhannu gwybodaeth ar draws sefydliadau.
- Tynnwyd sylw at yr angen i oresgyn rhwystrau o ran cynnal sgysiau anffurfiol, ar draws gwasanaethau, a rhannu gwybodaeth gychwynnol am deuluoedd.
- Ystyriwyd bod gwybodaeth leol h.y. ysgolion, yn allweddol.
- Yn dilyn y gweithdy, cynhaliwyd ymarfer mapio i nodi bylchau, a amlygwyd yn y digwyddiad.
- Cynigiwyd Grŵp Tasg a Gorffen, dan arweiniad Iechyd y Cyhoedd, i ystyried canfyddiadau'r gweithdy a chynnig ffyrdd o symud pethau ymlaen.
- Mynegwyd peth pryder ynglŷn â throthwyon atgyfeirio anghyson.
- Tynnwyd sylw at yr angen i wneud asesiadau llawn gwybodaeth h.y. digwyddiadau andwyol.
- Roedd diffiniad 'diamddiffyn' yn amrywio ymhlith partneriaid.

- Dylai atal damweiniau yn y cartref gael ei ddatblygu/gynnwys hefyd.
- Cydnabuwyd trafodaeth anffurfiol gwerthfawr ar sail gymunedol, nid o reidrwydd wedi'i dargedu at 1000 diwrnod.
- A oedd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru wedi'i gynrychioli yn y gweithdy?

PENDERFYNWYD:

- (a) **Bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn nodi'r themâu allweddol o'r digwyddiad a chefnogi ffurfio is-grŵp bach i edrych ar y meysydd a ganlyn a datblygu rhestr o gamau gweithredu.**
- **Galluogi amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol i ddod at ei gilydd ar sail anffurfiol i rannu gwybodaeth am deuluoedd, fel tîm amlddisgyblaethol.**
 - **Cefnogi dull cliriach a mwy cyson i gasglu a rhannu data rhwng gwasanaethau.**
 - **Adolygu trothwyon Atgyfeirio ar draws y system i nodi mannau pwysau a bylchau, yn enwedig lle gallai trothwyon fod yn rhy uchel, a allai gyfyngu mynediad i deuluoedd sydd angen cefnogaeth, ond na ystyrir eu bod 'mewn perygl' ar hyn o bryd.**
- (b) **Bod y canfyddiadau o'r is-grŵp yn cael eu hadrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.**
- (c) **Bod presenoldeb Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn y digwyddiad yn cael ei gadarnhau.**

52. **ASESIAD LLES LLEOL - CYMERADWYO AR GYFER CYHOEDDI**

Cyflwynodd Prif Swyddog Ymchwil a Gwybodaeth Conwy, Mark Bowler, adroddiad i'r Aelodau, a oedd yn darparu cyfle i adolygu'r canfyddiadau allweddol o'r Aseiad Lles Lleol. Byddai'r aseiad yn cael ei ddefnyddio i lywio Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer 2018-22.

Cyflwynwyd arsylwadau ar Aseiad Lles Drafft Conwy a Sir Ddinbych, gan Brif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Phwyllgor Archwilio Partneriaethau Cyngor Sir Ddinbych, er gwybodaeth.

Yn ogystal, hysbyswyd yr Aelodau fod ymgynghoriad ar-lein wedi digwydd hefyd. Derbyniwyd dau ddeg dau o ymatebion, a thynnwyd sylw at rhai fel a ganlyn:

- Ceisio gwneud rhagor yn y tymor hir – roedd Aelodau'n cydnabod bod angen trafodaeth bellach o ran y tymor hir a'r tymor byr a'r angen i allu dangos yr effaith nawr ac yn y 5 mlynedd nesaf. □ Materion risg i gynnwys yr Amgylchedd, Brexit a phoblogaeth sy'n heneiddio.

- Lles diwylliannol.
- Angen rhagor o weithio'n rhanbarthol.
- Deall sut mae ardaloedd blaenoriaeth yn effeithio ar gymunedau lleol.
- Angen rhagor o waith o ran yr amgylchedd – O ran yr ymateb amgylchedd, roedd baw cŵn yn fater i bobl fwy na newid hinsawdd, felly awgrymwyd y dylid cyflwyno data amgylchedd yn wahanol yn y dyfodol. Nodwyd y byddai Deddf yr Amgylchedd yn ffurfio rhan o ymgynghoriadau yn y dyfodol.
- Roedd gwybodaeth leol yn cael ei cholli.
- Nid oedd anafiadau damweiniol yn cael eu cynnwys a'r effaith ar iechyd.
- Angen pobl sy'n dioddef gyda chyflyrau cronig.

Cafwyd trafodaeth ar y materion canlynol:

- Disgwyliad cryf gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, Sophie Howe.
- Yr angen am flaenoriaethau tymor canolig a thymor hir wrth ddatblygu Cynllun y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Gallai'r data a gasglwyd gynorthwyo wrth lywio proses weithredu'r Cynllun.
- Gallai set ddata fach gael ei diweddarau bob blwyddyn, drwy adolygiad e-bost posibl.

Ar sail yr ymateb a gafwyd, cytunodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fod yr Aseiad Lles Lleol yn cael ei gyhoeddi ar ei ffurf bresennol.

PENDERFYNWYD:

(a) Cyhoeddi'r Aseiad Lles Lleol.

(b) Bod set ddata lai, ar sail nifer fach o flaenoriaethau, yn cael ei ddiweddarau bob blwyddyn.

(c) Bod adroddiad dilynol yn cael ei ddarparu ar y cynlluniau i fynd i'r afael â'r bylchau yn yr aseiad a'r cynllun lles ar gyfer cynnal a chadw parhaus, yng nghyfarfod mis Mehefin.

53. CADARNHAU AMCANION I SYMUD YMLAEN AC ENWEBU ARWEINYDD BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Cyflwynodd Fran Lewis (Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol – Conwy) a Nicola Kneale (Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol - Sir Ddinbych) nodiadau Gweithdy Amcanion Lles Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.

Amlygwyd y canlynol:

- Llunio mwy o gysylltiad i'r egwyddor cynaliadwyedd a meddwl am ba rai o'r meysydd hyn allai gael eu targedu h.y. materion strategol tymor byr, tymor canolig, a thymor hir.

- Dehongli'r gweithdy, wedi osod yn erbyn yr egwyddor cynaliadwyedd.
- Cynnig fformat gweithdy – nodwyd bod y themâu sy'n dod o'r gweithdy yn eang iawn.
- Adolygu pa bynciau sy'n cael eu halinio i'r themâu a nodwyd, ynghyd ag amllder.
- Dylai'r Gymraeg lunio thema trawstoriadol fel rhan o bob blaenoriaeth gweithdy.
- Mynegwyd pryder fod y rhestr yn rhy hir.

Roedd y pedwar gweithdy a nodwyd angen arweiniad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Yn ogystal, roedd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o'r farn byddai 'cyfaill' ar gyfer pob gweithdy yn fuddiol ac yn helpu i greu perchnogaeth ar lefel Bwrdd. Yn ogystal, cynigiwyd y dylid gofyn am gynrychiolaeth gan fudd-ddeiliaid eraill Conwy a Sir Ddinbych, h.y. Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, SNP, Llandrillo ac ati.

Y pedwar gweithdy a nodwyd oedd fel a ganlyn:

1. Yr Amgylchedd – arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru
2. Economaidd – arweiniad Awdurdod Lleol – i'w benderfynu
3. Diwylliannol – arweiniad Awdurdod Lleol
4. Cymdeithasol – arweiniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

O ran dyrannu dyddiadau ar gyfer gweithdai, nodwyd y dylai'r gweithdai gael eu cwblhau erbyn diwedd haf, 2017.

Dywedwyd wrth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus pan fyddai rhestr o gamau gweithredu arfaethedig wedi'i phennu o'r gweithdai, byddai'r Bwrdd mewn sefyllfa i edrych ar y camau a'u blaenoriaethu.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo'r arweinwyr canlynol ar gyfer gweithdai.

1. **Yr Amgylchedd – arweiniad Cyfoeth Naturiol Cymru**
2. **Economaidd – arweiniad Awdurdod Lleol – i'w benderfynu**
3. **Diwylliannol – arweiniad Awdurdod Lleol**
4. **Cymdeithasol – arweiniad Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.**

54. DIWEDDARIAD AR FATRICS BLAENORIAETHAU SEFYDLIADOL

Cyflwynodd Fran Lewis (Rheolwr Perfformiad a Gwelliant Corfforaethol – Conwy) a Nicola Kneale (Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol - Sir Ddinbych) Matrics Drafft Blaenoriaethau Sefydliadol sy'n Dod i'r Amlwg – Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo mewn egwyddor y Matrics Drafft Blaenoriaethau Sefydliadol sy'n Dod i'r Amlwg – Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.

55. 3 DIWRNOD MEWN YSTAFELL - CYNLLUN GWEITHREDU

Rhoddodd y Cadeirydd, Bethan Jones (Cyfarwyddwr Ardal - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) ddiweddariad i'r Aelodau ar ddiwyddiad 3 diwrnod â ffocws (3 Diwrnod mewn Ystafell) yn edrych ar y system a llif pobl sy'n cael mynediad i ofal eilaidd a gofal yn y gymuned, gan amlygu rhwystrau a chyfleoedd ar gyfer newid. Yn ogystal, cyflwynwyd Cynllun Gweithredu drafft.

Amserlennwyd y digwyddiad dros 3 diwrnod:

- Diwrnod un – Roedd ffocws yn Sir Ddinbych – gan ddechrau yn Ysbyty Glan Clwyd, ymweld â darparwr cartref gofal a gorffen yn Inffyrmarï Dinbych.
- Diwrnod dau – Roedd ffocws yng Nghonwy – dechrau yn Ysbyty Bae Colwyn, ymweliad Gofal Ychwanegol ac ysbyty Llandudno.

Cyflwynwyd nifer o straeon gan gleifion i ddangos y materion mewn ffordd gadarnhaol a negyddol.

- Diwrnod tri – ymestynnwyd y panel i gynnwys y Gwasanaeth Tân, arweiniad gan feddyg teulu yn yr ardal ganolog, arweiniad ariannol gan yr Awdurdod Lleol, darparwr Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Roedd cyflwyniadau a thrafodaethau gan ddarparwyr cartref gofal, timau comisiynu a meddygon teulu yn digwydd. Yn ogystal, trafodwyd y canlynol:
 - Llwybr iechyd meddwl pobl hŷn
 - Themâu
 - Gallu Gwaith Cymdeithasol □ Rhagdybiaethau arfer □ Dewisiadau amgen i'r ysbyty
 - Y sector gofal
 - Y rhwystrau
 - Camau gweithredu arfaethedig – nodwyd bod rhai o'r camau eisoes yn cael eu datblygu.

Gwnaeth y Cadeirydd ddiolch i Simon Smith (Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru) a oedd wedi helpu i hwyluso rhai o'r gweithdai.

Roedd Aelodau'n croesawu'r fethodoleg a ddefnyddiwyd a'r farn rheng flaen ond cydnabuwyd nad oedd atebion syml ac roedd llawer o waith i'w wneud o hyd. Roedd Aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn edrych

ymlaen at gynllun gweithredu llawn gwybodaeth, wedi'i ddatblygu'n llawn, maes o law.

PENDERFYNWYD:

Nodi 3 Diwrnod mewn Ystafell - Cynllun Gweithredu Drafft.

56. **RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych a nodwyd yr ychwanegiadau canlynol:

- Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd (gofyniad statudol ar ôl etholiadau'r ALI)
- Ailgyflwyno Cylch Gorchwyl Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (gofyniad statudol)
- Ailafon gwahoddiadau i bobl a wahoddir (gofyniad statudol)
- Amcanion Lles
- Cynllun Gweithredu – adborth Is-grŵp 1000 Diwrnod Cynfaf
- Diwygio Llywodraeth Leol (eitem sefydlog)
- Adborth gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru o ran: bylchau cyllid yr UE
- Asesiad Lles - cynllun i fynd i'r afael â'r bylchau a nodwyd a'r cynnal a chadw parhaus
- Diweddariad ar y Rhwydwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cenedlaethol

CYTUNWYD:-

Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol, gan gynnwys y pwyntiau bwled ychwanegol uchod.

57. **UNRHYW FATER ARALL**

Yn ddiweddar roedd y Cynghorydd Dilwyn Roberts (Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) wedi cyhoeddi ei fod yn bwriadu ymddeol ac felly, ni fyddai'n sefyll yn yr Etholiad Llywodraeth Leol ym mis Mai 2017. Diolchodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i'r Cynghorydd Dilwyn am ei gyfraniad gwerthfawr gan ddymuno'n dda iddo yn ei ymddeoliad.

(a) Diweddariad gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill Gogledd Cymru

Dywedodd Swyddog Datblygu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Hannah Edwards, fod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill Gogledd Cymru mewn sefyllfa debyg o ran datblygiad cynllun i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.

Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych oedd yr unig Fyrddau a oedd wedi cael adborth gan Llywodraeth Cymru.

(a) Diweddariad o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill yng Ngogledd Cymru

Dywedodd Swyddog Datblygu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Hannah Edwards, fod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eraill Gogledd Cymru mewn sefyllfa debyg i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych.

Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych oedd yr unig Fyrddau a oedd wedi cael adborth.

(Daeth y cyfarfod i ben am 5.00 pm)
